

Agenda Eitem: 2

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambraeth y Cyngor, Ffordd Llys Nant, Prestatyn ar ddydd Mercher, 18fed Mehefin 2008 am 10.00 a.m.

YN BRESENNOL

Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Cynghorwyr J.A. Davies, C. Hughes, G.A. Jones ac M.M. Jones

Yn cynrychioli Cyd-Bwyllgor Negodi Athrawon Sir Ddinbych

I. Barros-Curtis, R. Hayward, L. Linaker ac M.B. Lloyd

Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol

H. Ellis, R. Elms, B. Wyn Evans, S. Harris, M. Hatch ac M. Ludenbach

Aelodau Cyfetholedig

T. Ap Siôn (dirprwyd dros y Parch. Athro L.J. Francis)

HEFYD YN BRESENNOL

Arolygydd/Ymgynghorydd AG (G. Craigen) a Swyddog Gweinyddu (K.E. Jones)

DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

M. Bradshaw, C. Harmsworth, Parch. B.H. Jones (Cadeirydd) ynghyd â'r Cynghorwyr G.C. Evans a J. Yorke

Roedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn hefyd oddi wrth Gyfarwyddwr Corfforaethol Interim Dysgu Gydol Oes.

PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cadeirydd, y Parchedig B.H. Jones ac yn absenoldeb Is-Gadeirydd penderfynodd yr aelodau benodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod. Felly:-

PENDERFYNWYD penodi Mrs. M.B. Lloyd yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

MYFYRDOD TAWEL

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o fyfyrddod tawel.

CROESO

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a'r swyddogion i'r cyfarfod ac estynnwyd croeso arbennig i'r Cynghorwyr J.A. Davies a C. Hughes a oedd yn mynchu eu cyfarfod CYSAG cyntaf. Cymerodd hi'r cyfle hefyd i longyfarch Ms. Mary Ludenbach ar ei phenodiad ffurfiol yn Bennaeth Addysg Grefyddol yn Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones yn Y Rhyl. Cyflewyd llonyfarchiadau hefyd i'r Cynghorydd M.M. Jones ar ei phenodiad yn Aelod Arweiniol y Cabinet dros Wasanaethau Plant.

1 MATERION BRYS

Nid oedd dim materion brys i'w hystyried gan y pwyllgor.

2 ETHOL IS-GADEIRYDD

Egluodd y Cadeirydd nad oedd yr Is-Gadeirydd blaenorol, y Cynghorydd G.J. Pickering wedi'i ailethol yn ystod etholiadau cyngor sir mis Mai. Felly roedd angen penodi rhywun yn ei le ar gyfer 2008-09 a gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau gan y cynrychiolwyr o Gynghorwyr. Cynigiodd y Cynghorydd C. Hughes, ac eiliodd y Cynghorydd J.A. Davies fod y Cynghorydd M.M. Jones i'w phenodi'n Is-Gadeirydd CYSAG Sir Ddinbych. Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill ac o'i roi i bleidlais:-

PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd M.M. Jones yn Is-Gadeirydd CYSAG Sir Ddinbych ar gyfer 2008-09.

Talodd y Cynghorydd M.M. Jones deyrnged i'r gwaith a wnaed gan yr Is-Gadeirydd blaenorol a chytunwyd bod llythyr o ddiolch i'w anfon ato ar ran CYSAG Sir Ddinbych.

3. COFNODION

(a) CYSAG Sir Ddinbych – 4ydd Chwefror 2008

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd Chwefror 2008 (a gylchlythyrwyd yn flaenorol).

Materion yn Codi -

Tudalen 5 - Eitem Rhif 4: Canlyniadau Arholiadau 2007 - Cadarnhaodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ei fod wedi cyfarfod â Phennaeth Gwella Ysgolion, Mr Gareth Wyn Jones i drafod meysydd perfformiad gwael mewn AG. Er bod Pennaeth Gwella Ysgolion yn mynd i'r afael â materion perfformiad yn gyffredinol o fewn ysgolion, roedd ffocws y gwaith ymgynghorol yn y flwyddyn academaidd nesaf ar ysgolion uwchradd, yn arbennig Cyfnod Allweddol 4. Felly roeddid wedi gofyn i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG ganolbwytio'i waith yn benodol ar ysgolion uwchradd yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf. O ganlyniad byddai llai o amser ar gael i weithio gydag ysgolion cynradd ac i'w cefnogi. Er yn sylweddoli'r angen i ganolbwytio ar berfformiad disgyblion mewn ysgolion uwchradd, pwysleisiodd yr aelodau na ddylai ysgolion cynradd gael eu hesgeuluso o ganlyniad, yn arbennig o ystyried datblygiad y cyfnod sylfaen a'r cyfnod addasu i ysgolion cynradd. Mynegodd yr aelodau siom hefyd nad oedd yr un cynrychiolydd o'r awdurdod addysg lleol wedi bod yn bresennol yng nghyfarfod heddiw nag yng nghyfarfod diwethaf

CYSAG ac roeddynt yn gobeitho y byddai'r awdurdod wedi'i gynrychioli mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Mewn ymateb i gwestiynau a phryderon yr aelodau, cadarnhaodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG fod diwrnodau HMS wedi'u trefnu ar gyfer y sector ysgolion cynradd a phetai cais penodol am gefnogaeth gan ysgol gynradd yn cael ei dderbyn byddai angen iddo gael sylw.

Mewn perthynas ag ymarferoldeb y cynnig i gael Diwrnod Strategaeth Arholiadau Disgyblion, teimlai Pennaeth Gwella Ysgolion y byddai'n ddigwyddiad buddiol ac roedd yn fodlon cyfrannu'n ariannol petai angen. Roeddid wedi gofyn am adborth ar y cynnig gan ysgolion hefyd ac roedd tua hanner yr holl ysgolion wedi ymateb a bu'r atebion hynny'n gadarnhaol. Y bwriad oedd mynd ar drywydd yr ymatebion a oedd heb eu derbyn yn y man.

PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 4ydd Chwefror 2008 fel rhai cywir.

(b) Cynhadledd Maes Llafur Cytûn (CMLIC) Sir Ddinbych – 4ydd Chwefror 2008

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd Chwefror 2008 (a gylchlythyrwyd yn flaenorol).

Materion yn Codi -

Rhoddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG wybod bod y Maes Llafur Cytûn bellach wedi'i argraffu'n ddwyieithog gyda logos y tri awdurdod fel y cytunwyd yn flaenorol. Roedd y newidiadau y cytunwyd arnynt wedi'u mewnosod yn nhu blaen y ddogfen yn yr un patrwm â'r gwreiddiol. Byddai'r Maes Llafur Cytûn yn cael ei anfon i ysgolion Sir Ddinbych yr wythnos honno ynghyd ag arweiniad cynhwysfawr i AG, sy'n cynnwys digoneidd o gyngor a chefnogaeth i ysgolion a chanllawiau ar gyfer eu cynlluniau gwaith. Yn anffodus roedd problemau a gafwyd gyda'r broses argraffu a chyfieithu wedi arwain at oedi wrth gylchredeg y fersiwn Gymraeg, a fyddai'n cael ei hanfon tua diwedd yr wythnos nesaf gobeithio. Byddai copïau o'r ddogfen yn cael eu hanfon at aelodau CYSAG gyda hyn ac roeddynt ar gael i'r aelodau eu hastudio yn dilyn cyfarfod heddiw.

PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod CMLIC a gynhaliwyd ar 4ydd Chwefror 2008 fel rhai cywir.

Yn y fan hon croesawodd y Cadeirydd y Parchedig C. Southerton a'i gydwethiwr, Offeiriad Pabyddol o Bakistan a oedd wedi galw heibio i arsylwi ar ran o'r cyfarfod. Diolchodd y Parchedig Southerton i'r Cyngor am eu croeso cynnes a thalodd deyrnged i waith ei westai wrth ddod â gobaith ac addysg i ardaloedd anghysbell difreintiedig ym Mhakistan.

4. DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGU AR YSGOLION

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn dadansoddi canlyniadau'r arolygiadau diweddar ar ddwy ysgol rhwng Rhagfyr 2007 a Chwefror 2008 yn narpariaeth Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol (DYMD), ac Addysg Grefyddol ble oedd yn rhan o'r arolygiad. Roedd arolygiadau wedi'u gwneud yn Ysgol Trefnant ac Ysgol Babanod

Bodnant, Prestatyn ac roedd hanes byr y ddwy ysgol wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

Darparodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG grynodeb byr o'r canfyddiadau'n ymwneud â'r ddwy ysgol ar gyfer yr aelodau, gan egluro ac eglurhau materion penodol mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau ar hynny. Cadarnhaodd nad oedd Addysg Grefyddol wedi'i harolygu gan Estyn yn y naill ysgol na'r llall o dan y trefniadau arolygu presennol a bod cyfeiriadau at agweddau ar DYMD a Chwestiwn Allweddol 3 wedi'u cynnwys o fewn yr adroddiad. Roedd hi'n ddymunol nodi'r 39 sylw cadarnhaol ar gyfer DYMD rhwng y ddwy ysgol gydag ond 4 sylw negyddol.

PENDERFYNWYD:-

- (a) *derbyn a nodi'r adroddiad;*
- (b) *bod yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn ysgrifennu at yr ysgolion a arolygwyd yn eu llongyfarch ar y nodweddion da ac yn cynnig gwasanaeth yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG neu swyddogion eraill yr AALI o ran mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion neu faterion allweddol, a*
- (c) *gofyn i'r Awdurdod Addysg Lleol ddosbarthu'r llythyrau uchod.*

5. ADRODDIADAU MONITRO

(a) Adroddiad Monitro ac Arolwg Cefnogol ar Gonsortiwm Ysgolion Ysgol Uwchradd Glan Clwyd

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yngylch darparu Addysg Grefyddol yng Nghonsortiwm Ysgolion Glan Clwyd, a oedd yn cynnwys Ysgol y Llys, Ysgol Twm o'r Nant ac Ysgol Dewi Sant.

Yn dilyn ymweliadau gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG â phob un o'r ysgolion yn ystod tymor y gwanwyn, roedd adroddiad am yr ymweliad a materion a chanlyniadau wedi'i gytuno. Crynhodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG y nodweddion da, y diffygion a'r argymhellion ar gyfer pob ysgol a oedd wedi'u nodi o fewn yr adroddiad a rhoddodd grynodeb cyffredinol o'r consortiwm cyfan. Gofynnwyd i'r aelodau nodi y byddai'r ymweliad monitro ar gyfer Ysgol Uwchradd Glan Clwyd yn cael ei wneud gan Ymgynghorydd o Cynnal a byddai adroddiad am yr ymweliad yn cael ei gyflwyno i CYSAG unwaith y byddai wedi'i dderbyn.

Tynnodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG sylw'r aelodau at y sylwadau cyffredinol, a oedd yn amlyu tri datganiad arfer da a rennir ar draws dwy ysgol gydag ond dau faes i'w datblygu yn gyffredin i ddwy ysgol. Roedd tri argymhelliaid a oedd yn gyffredin i ddwy ysgol neu fwy, yn cynnwys cynnal yr arfer da presennol. Ni fu hi'n bosibl rhoi barn yn ystod yr ymweliadau ond roedd adroddiadau arolygu diweddar mewn dwy ysgol wedi barnu safonau yn y dda Gyfnod Allweddol yn Radd 2. Mewn un ysgol barnwyd safonau yn Dda yn yr arolygiad yn 2003 yn y dda Gyfnod Allweddol ac roedd y cydlynnydd pwnc wedi teimlo bod safonau'n cael eu cynnal.

Cymerodd yr aelodau y cyfle i godi cwestiynau gyda'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG yngylch ei ymweliadau ac eglurodd yntau ei rôl fel 'cyfaill beirniadol' yn asesu proses hunanwerthuso'r ysgolion. Roedd yn falch o roi gwybod nad oedd erioed

wedi cael profiad negyddol mewn ysgol yn Sir Ddinbych ac roedd fo'i hun ac ysgolion ill dau'n teimlo bod yr ymweliadau'n gadarnhaol a buddiol. Roedd adroddiadau'n cael eu cytuno gydag ysgolion a hefyd yn cynnwys cyfeiriad at drafodaethau ac at arsylwi gwersi na cheid adroddiad arnynt mewn cyfarfod cyhoeddus oherwydd natur broffesiynol yr wybodaeth dan sylw.

PENDERFYNWYD:-

- (a) *derbyn a nodi'r adroddiad;*
- (b) *anfon llythyrau i'r ysgolion dan sylw gyda chopi o'r adroddiad llawn fel y'i cyflwynwyd i CYSAG yn eu llonygfarch ar y nodweddion da ac yn cynnig gwasanaeth yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG o ran mynd i'r afael ag unrhyw ddifygion, a*
- (c) *gofyn i'r Awdurdod Addysg Lleol ddosbarthu'r llythyrau uchod.*

(b) Darparu Addysg Grefyddol: Ysgolion Sy'n Weddill

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) ar sefyllfa AG a chydaddoli mewn ysgolion nad ymwelwyd â hwy fel rhan o'u consortiw, a oedd yn cynnwys Ysgol Bryn Clwyd, Llandyrnog; Ysgol Trefnant; Ysgol Bro Elwern, Gwyddelwern; Ysgol Pentrecelyn; Ysgol Pant Pastynog; Ysgol Rhewl ac Ysgol Dyffryn lâl.

Yn dilyn ymweliadau gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd RE â phob un o'r ysgolion yn ystod tymor y gwanwyn, roedd adroddiad am y materion a'r canlyniadau wedi'i gytuno. Crynhodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG y nodweddion da, y meysydd i'w datblygu a'r argymhellion ar gyfer pob ysgol a oedd wedi'u nodi o fewn yr adroddiad a rhoddodd grynodeb cyffredinol o grŵp cyfan yr ysgolion hyn. Tynnwyd sylw'r aelodau at y sylwadau cyffredinol gyda phum nodwedd dda wedi'u rhestru a oedd yn gyffredin i bedair ysgol gyda nodweddion da eraill wedi'u rhestru ar gyfer ysgolion unigol. O ran meysydd i'w datblygu roedd dau wedi'u rhestru ar draws dwy ysgol gyda nifer o feysydd datblygu wedi'u clustnodi ar gyfer ysgolion unigol. Roedd hi'n ddiddorol nodi bod y meysydd unigol i'w datblygu eisoes wedi'u clustnodi gan ysgolion drwy'u proses hunanwerthuso, a gadarnhawyd gan ymweliadau'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG, a oedd yn amlygu bod y broses fonitro yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion hefyd yn gwneud y barnau iawn ar ba gamau oedd eu hangen. Mewn perthynas â safonau roedd un ysgol wedi'i barnu'n Radd 2; roedd tair ysgol wedi'u barnu'n Radd 3 gyda'r ysgolion yn teimlo eu bod yn symud tuag at Radd 2 yn awr; yn yr arolygiad diwethaf roedd un ysgol wedi'i barnu'n foddfaol ac roedd yr ysgol yn hyderus bellach, o ystyried y newidiadau a weithredwyd, y byddai safonau'n cael eu barnu'n Radd 2. Teimlai'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG ei fod wedi'i galonogi gan y gwaith sy'n cael ei wneud yn yr ysgolion hynny.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd cadarnhaodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG, ac eithrio'r ddwy Ysgol Gatholig y cyfeirir atynt yn yr adroddiad nesaf ar agenda heddiw, fod ymweliadau monitro holl ysgolion Sir Ddinbych wedi'u cwblhau bellach. Pwysleisiodd y Cynghorydd M.M. Jones y gwaith caled a wnaed gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG wrth ymgymryd â'r ymweliadau monitro ysgolion, a oedd wedi bod yn brofiad gwerthfawr a buddiol a holodd yngylch prosesau monitro

mewn AG a chydaddoli mewn ysgolion yn y dyfodol. Cadarnhaodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG y byddai ei ffocws dros y flwyddyn academaidd nesaf ar ysgolion uwchradd. Roedd holl fater monitro yn cael ei ystyried gan Bennaeth Gwella Ysgolion ond at ei gilydd byddai'r prif ffocws ar Gyfnod Allweddol 4 ac ysgolion uwchradd. Teimlai'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG y gall fod yn briodol ystyried dulliau gweithredu gwahanol dros y deuddeng mis nesaf ac awgrymodd y gallai fynd yn ôl at adroddiadau ysgolion unigol ac ysgrifennu at yr ysgolion dan sylw i gael gwybod sut oedd ynt yn mynd i'r afael ag unrhyw ddifygion neu faterion sy'n peri pryder a amlygwyd yn eu hadroddiadau. Os oedd materion yn dal i fod heb gael sylw neu fod meysydd newydd wedi'u clustnodi a oedd ag angen cymorth neu gefnogaeth yna gellid eu trin. Byddai'r dull gweithredu hwn yn sicrhau y byddai gwelliannau ysgolion yn cael eu targedu yn y dyfodol mewn perthynas â'r adroddiadau monitro heb yr angen am ymweliad monitro llawn. Cytunodd yr aelodau ei bod yn bwysig fod peirianwaith newydd ar gyfer targedu gwelliannau ysgolion yn cael ei ddatblygu.

PENDERFYNWYD:-

- (a) *derbyn a nodi'r adroddiad;*
- (b) *anfon llythyrau i'r ysgolion dan sylw gyda chopi o'r adroddiad llawn fel y'i cyflwynwyd i CYSAG yn eu llonygfarch ar y nodweddion da ac yn cynnig gwasanaeth yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG o ran mynd i'r afael ag unrhyw ddifygion, a*
- (c) *gofyn i'r Awdurdod Addysg Lleol ddosbarthu'r llythyrau uchod.*

(c) Darparu Addysg Grefyddol: Crynodeb o Ymweliadau Monitro

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn crynhoi'r ymweliadau monitro ag ysgolion hyd yn hyn. Atgoffwyd yr aelodau fod CYSAG, fel rhan o'i rôl fonitro, yn derbyn adroddiadau ar ymweliadau ag ysgolion gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG a chrynodeb o'r rheini ar gyfer y consortiwm. Roedd y broses honno wedi bod yn mynd ymlaen er 2004 ac roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r holl ymweliadau monitro hyd yn hyn a oedd yn cynnwys pob ysgol ar wahân i ddwy.

Hysbyswyd yr aelodau yr ymwelwyd â 43 o'r 62 ysgol yn Sir Ddinbych (ac eithrio consortia Ysgolion Uwchradd Catholig y Santes Ffraid a'r Bendigaid Edward Jones) yn ystod y cyfnod Hydref 2004 – Gwanwyn 2008 a dangoswyd y materion cronus a oedd yn codi yn y pedair agwedd a oedd wedi ymddangos yn adroddiadau'r consortiwm fel y'u cyflwynwyd i CYSAG. Tynnwyd sylw CYSAG at y nodweddion da, meysydd i'w datblygu, argymhellion a safonau fel y'u nodwyd o fewn yr adroddiad.

Pwysleisiodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG fod llawer o nodweddion da wedi'u clustnodi'n gyffredin ar draws nifer fawr o ysgolion gyda llawer wedi'u clustnodi mewn ysgolion unigol a oedd yn dangos bod llawer o waith da yn cael ei wneud o fewn ysgolion. Dim ond un maes i'w ddatblygu, yn ymwneud â gweithdrefnau asesu a chofnodi cyrhaeddiad, oedd wedi'i glustnodi mewn nifer o ysgolion. Serch hynny, nid oedd dim gofyn statudol i gofnodi cyrhaeddiad mewn AG. Roedd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG wedi trafod defnydd Deunyddiau Asesu Dewisol gydag ysgolion ac roeddynt mewn defnydd mewn llawer o ysgolion bellach. Roedd

meysydd cyffredin eraill i'w datblygu ar draws nifer lai o ysgolion. Roedd hi'n galonogol nodi bod dros hanner yr ysgolion wedi'u hargymhell i gynnal yr arfer da mewn AG a/neu gydaddoli. Roedd llawer o argymhellion unigol ar gyfer ysgolion unigol. Ble oedd safonau wedi'u barnu ar draws 31 ysgol roedd y canlyniadau canlynol wedi'u darparu:-

- Gradd 1 – 16% (5 ysgol)
- Gradd 2 – 54% (17 ysgol)
- Gradd 3 – 25% (8 ysgol)
- Gradd 4 – 5% (1 ysgol)

Roedd y safonau'n dangos bod 95% wedi cyrraedd Gradd 3 (nodweddion da yn gorbwyo diffygion) ac uwch. Er yn sylweddoli bod yna faterion i fynd i'r afael â nhw roedd y safonau hefyd yn amlygu'r gwaith da sy'n cael ei wneud mewn ysgolion.

O ran asesu, roeddid wedi trefnu bod cyngor a chefnogaeth ar gael drwy'r Maes Llafur Cytûn a'r bwriad oedd ailgynhyrchu Deunyddiau Asesu Dewisol i sicrhau y gallai ysgolion wneud defnydd ohonynt. Roedd wedi'i awgrymu hefyd y gallai cofnodi cyrhaeddiad gael ei wneud yn ôl y Maes Llafur Cytûn ac roedd cyfeiriad wedi'i gynnwys o fewn y maes llafur newydd y gallai CYSAG ofyn i ysgolion roi adroddiad ar lefelau cyrhaeddiad ar ddiwedd y ddua Gyfnod Allweddol. Hysbyswyd yr aelodau hefyd fod APADGOS wrthi'n cynhyrchu canllawiau ac adnoddau a fyddai'n ddefnyddiol i ysgolion. I alluogi ysgolion i ymgyngefino â'r Maes Llafur Cytûn newydd a chanllawiau sydd i ddod awgrymodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG fod ceisiadau gan CYSAG am adroddiadau ar lefelau cyrhaeddiad i'w gohirio o flwyddyn. Cytunodd yr aelodau â'r awgrym hwnnw.

Tra oedd yr adroddiad yn cael ei ystyried talodd y Cyngphonydd G.A. Jones deyrnged i waith caled yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG a chynigiodd fod llythyr ffurfiol o ddiolch i'w anfon ato ar ran CYSAG. Cynigiodd y Cyngphonydd Jones hefyd fod llythyrau llongyfarch i'w hanfon i'r pum ysgol a oedd wedi cyrraedd Gradd 1 yn eu harolygiadau.

PENDERFYNWYD:-

- (a) *derbyn a nodi'r adroddiad;*
- (b) *anfon llythyrau llongyfarch i'r ysgolion hynny sy'n cyrraedd Gradd 1 yn eu harolygiadau, a*
- (c) *anfon llythyr o ddiolch i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn cydnabod y gwaith gwerthfawr yr oedd wedi'i wneud.*

6. CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU

- (a) **Cofnodion y cyfarfod CCYSAGC diwethaf a gynhaliwyd yng Nghaerfyddin ar 14eg Mawrth 2008**

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG gofnodion y cyfarfod CCYSAGC a gynhaliwyd yng Nghaerfyddin ar 14eg Mawrth 2008 (cylchlythyrwyd yn flaenorol) er gwybodaeth i'r aelodau. Cyfeiriodd at y cyflwyniad a dderbyniwyd oddi wrth Addysg Gristnogol ar y 'Prosiect Mynd i'r Afael â Materion Anodd' a oedd wedi'i rannu â'r

aelodau o'r blaen. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau o'r arfer i'r Cadeirydd, Is-Gadeirydd a chyn-Gadeirydd CYSAG fod yn bresennol fel cynrychiolwyr yng nghyfarfodydd CCYSAGC yn ogystal â'r Ymgynghorydd.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi cofnodion y cyfarfod o CCYSAGC ar 14eg Mawrth 2008.

(b) Enwebiadau ar gyfer y Pwyllgor Gwaith a diwygiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG fanylion yr enwebiadau ar gyfer y Pwyllgor Gwaith ynghyd â diwygiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) i'r aelodau eu hystyried.

Egluodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG mai'r cyfarfod nesaf o CCYSAGC oedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol pan fyddai enwebiadau i'r Pwyllgor Gwaith yn cael eu hystyried. Gofynnodd am farn yr aelodau ar ethol enwebiadau penodol ac ar awdurdodi cynrychiolwyr CCYSAGC ym mater pleidleisio. Hysbyswyd yr aelodau mai dim ond un enwebiad oedd wedi'i dderbyn ar gyfer Is-Gadeirydd CCYSAGC oddi wrth y Cynghorydd Michael Gray, CYSAG Caerffili. Serch hynny, roedd tri enwebiad ar gyfer dwy swydd ar y Pwyllgor Gwaith. Wrth ystyried yr enwebedigion teimlai'r aelodau fod gan Vicky Thomas beth wmbredd o brofiad profedig ac y byddai Eirian Pierce, fel athrawes weithredol, hefyd yn werthfawr ar y Pwyllgor Gwaith. Felly cynigiwyd ac eiliwyd bod yr enwebedigion Vicky Thomas ac Eirian Pierce i fod yn ddewis Sir Ddinbych i'w hethol i'r Pwyllgor Gwaith.

Rhoddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad hefyd ar y diwygiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad o ran cyfansoddiad y Pwyllgor Gwaith ac eglurhad ynglŷn â phobl a wahoddir i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith gan y Cadeirydd. Roedd yr aelodau'n fodlon i'r newidiadau cyfansoddiadol gael eu cymeraadwyo. Nododd y Cynghorydd G.A. Jones y byddai gan unrhyw aelodau o'r CYSAG yr oedd eu Cyngor neu AALI yn croesawu'r cyfarfod yr hawl, mewn cyfarfod o'r Gymdeithas, i fynychu'r cyfarfod fel sylwedyddion. Teimlai'r Cynghorydd Jones gan fod aelodau CYSAG ond yn cael y cyfreith i fynychu cyfarfod bob chwe blynedd (pan oedd awdurdodau'n croesawu cyfarfod) y gallai gwahoddiad gael ei estyn hefyd i aelodau CYSAG ei awdurdodau cyfagos. Wedi trafodaeth bellach cytunwyd bod cynrychiolwyr CYSAG Sir Ddinbych i godi'r awgrym hwn yn y modd mwyaf priodol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.

PENDERFYNWYD:-

- (a) awdurdodi cynrychiolwyr CYSAG i CCYSAGC i bleidleisio dros ethol Vicky Thomas ac Eirian Pierce i'r Pwyllgor Gwaith;
- (b) cefnogi'r diwygiadau arfaethedig i Gyfansoddiad CCYSAGC, a
- (c) gofyn i gynrychiolwyr CYSAG godi, yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol, fater gwahodd aelodau CYSAG awdurdodau cyfagos sy'n croesawu cyfarfodydd CCYSAGC i fod yn bresennol.

(c) Llythyrau a dderbyniwyd oddi wrth y Gymdeithas

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG llythyrau a dderbyniwyd oddi wrth y Gymdeithas ynghylch presenoldeb mewn cyfarfodydd ac wrth wneud cysylltiadau gyda Rhwydweithiau Dysgu 14 - 19 (copïau'n amgaeëdig).

Rhoddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG wybod, er bod Sir Ddinbych bob amser â chynrychiolaeth dda mewn cyfarfodydd CCYSAGC, na ellid dweud yr un peth am awdurdodau eraill ac roedd presenoldeb gwael wedi'i godi fel mater yn y cyfarfod diwethaf. O ganlyniad roedd CCYSAGC wedi cytuno i ysgrifennu at bob CYSAG a gofyn i ymdrech gwirioneddol gael ei wneud i anfon cynrychiolwyr i'r cyfarfodydd a bod y llythyr i'w ddwyn at sylw aelodau CYSAG. Yn yr un cyfarfod roedd CCYSAGC wedi trafod AG yn y Cwricwlwm 14 - 19 hefyd ac wedi gofyn bod llythyr i'w anfon at CYSAgau gyda llythyr a all gael ei anfon ymlaen at eu Cydlynnydd Rhwydwaith 14 - 19 lleol. Teimlai aelodau CCYSAGC y byddai llythyr oddi wrth CCYSAGC at Gydlynwyr Rhwydwaith 14 - 19 yn annog deialog a pherthynas rhyngddyn nhw a CYSAgau yn berthnasol o ystyried y cyfrifoldeb am y Rhwydweithiau 14 - 19 o ran cwricwlwm yr ysgol a chyfrifoldeb statudol y CYSAgau am fonitro'r ddarpariaeth a chyflwyno AG o fewn ysgolion. Awgrymodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG hefyd efallai y dymuna CYSAG wahodd Cydlynnydd y Rhwydwaith 14 - 19 i'w cyfarfod nesaf i drafod prosesau.

PENDERFYNWYD:-

- (a) *derbyn a nodi'r llythyrau oddi wrth y Gymdeithas, a*
- (b) *anfon y llythyr oddi wrth CCYSAGC ymlaen i'r Rhwydwaith Dysgu 14 – 19 ynghyd â gwahoddiad i Gydlynnydd y Rhwydwaith 14 – 19 fynychu cyfarfod nesaf CYSAG.*

(ch) Cynhadledd Genedlaethol gydag APADGOS

Rhoddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ddiweddariad llafar i'r aelodau ynghylch y cynigion ar gyfer y Gynhadledd Genedlaethol a oedd i fod i'w chynnal ym mis Hydref 2008. Hysbyswyd yr aelodau y byddai gwahoddiadau i'r gynhadledd yn cael eu hanfon drwy APADGOS yr wythnos honno i bob ysgol anfon dau gynrychiolydd. Byddai gwahoddiadau'n cael eu hanfon hefyd i Golegau AB a chyrff allweddol gyda diddordebau priodol yn cynnwys y Ddraig Ffynsi. Pwrpas y gynhadledd oedd codi ymwybyddiaeth o beth allai AG Ôl-16 fod a'r buddion i'r disgylion ac annog ysgolion i roi amser priodol i AG yn y cwricwlwm. Byddai cyswllt fideo rhwng y ddau fan cyfarfod yn Sir y Fflint a Chaerdydd yn cael ei ddefnyddio a chyflwyniadau'n cael eu traddodi o'r ddau fan, yn cynnwys arraith cyweirnod gan y Gweinidog. Byddai pob cynrychiolydd yn derbyn copïau o adnoddau a baratowyd yn arbennig ar gyfer AG Ôl-16 ac amrywiaeth o ddeunyddiau defnyddiol ac ysgogol eraill.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad llafar gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ynghylch cynigion ar gyfer y Gynhadledd Genedlaethol gydag APADGOS.

7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau fod cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych wedi'i drefnu ar gyfer 10.00 a.m. ar ddydd Mawrth 7fed Hydref, 2008 yn Siambwr y Cyngor,

Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun. Rhoddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd wybod y gall y dyddiad gael ei newid yn anffodus a byddai'r aelodau'n cael gwybod y cyfle cyntaf posibl petai hynny'n digwydd.

Cyn terfyn y cyfarfod diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu presenoldeb a'u cyfraniadau at y drafodaeth ac fe'u gwahoddodd i gasglu copi o Newyddion AG a oedd ar gael i bob aelod o CYSAG. Roedd copiau o Lawlyfr CYSAG ar gael hefyd i'w casglu gan yr aelodau newydd. Cymerodd y Cadeirydd y cyfle hefyd i hysbysu'r aelodau y byddai Mrs. S. Collingbourne, Ysgrifennydd CCYSAGC yn gadael gyda hyn. Roedd hi'n falch o roi gwybod bod Tania Ap Siôn yn cymryd ei lle a dymunodd y gorau iddi yn y rôl honno. Yn olaf diolchodd y Cadeirydd i gyfieithydd y pwyllgor a Chlerc CYSAG am eu gwaith caled ac estynnwyd diolch arbennig hefyd i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG a chyflëwyd dymuniadau gorau iddo ar gyfer y daith i Uganda sydd ar ddod ganddo.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55 a.m.

Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol
(CYSAG)

Dyddiad y Cyfarfod:	Hydref 8 2008	
Eitem Agenda:	3	Manylion yr Adroddiad
<u>Cefndir i'r Adroddiad:</u>		
Fe benderfynodd CYSAG rai blynnyddoedd yn ôl i gychwyn proses o wahodd ysgolion i roi cyflwyniadau ar ddarpariaeth Addysg Grefyddol ac addoli cyfunol.		
<u>Pwrpas yr Adroddiad:</u> Iaelodau ymgyfarwyddo â darpariaeth Addysg Grefyddol ac addoli cyfunol yn Ysgol Gellifor, ac i ystyried materion ynglŷn ag Addysg Grefyddol ac addoli cyfunol a allai godi.		
<u>Argymhellion:</u> <ul style="list-style-type: none">I dderbyn y cyflwyniadI anfon llythyr o ddiolch at Brifathro'r ysgol yn cydnabod y cyflwyniad a roddwyd gan Mrs. Kate Dowell.		


Cyngor Sir Ddinbych
Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol
(CYSAG)

Dyddiad y Cyfarfod:	8 th October 2008	
Eitem Agenda:	4	Manylion yr Eitem
<u><i>Cefndir i'r Adroddiad:</i></u>		
Yng nghyfarfod diwethaf CYSAG cytunwyd y dylid blaenyrru'r llythyr gan Gymdeithas Cymru o CYSAG am ffurfio cysylltiadau gyda Rhwydweithiau Dysgu 14 - 19 at Gydlynnydd y Rhwydwaith Dysgu yn Sir Ddinbych, ynghyd â gwahoddiad i wneud cyflwyniad i CYSAG.		
<u><i>Pwrpas yr Adroddiad:</i></u>		
I aelodau ddod yn hyddysg â chylch gorchwyl a gweithdrefnau'r Rhwydwaith Dysgu 14 – 19 a fforio gyda'r Cydlynnydd, ffyrdd y gall CYSAG weithio mewn cysylltiad â'r Rhwydwaith o ran darpariaeth Addysg Grefyddol.		
<u><i>Argymhellion:</i></u>		
<ul style="list-style-type: none">I dderbyn y cyflwyniad.I ystyried ffyrdd posibl y gall y Rhwydwaith a CYSAG weithio gyda'i gilydd.I gytuno ar brotocol rhwng y ddau gorff.		

Cyngor Sir Ddinbych
Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol
(CYSAG)

Dyddiad y Cyfarfod:	8 th October 2008	
Eitem Agenda:	5	Manylion yr Eitem
<u>Cefndir i'r Adroddiad:</u>		
Mae'n ofyniad statudol ar CYSAG i gynhyrchu Adroddiad Blynnyddol o'i waith, a bod yn rhaid i'r Adroddiad Blynnyddol hwn fod ar gael i APADGOS erbyn Rhagfyr 31.		
<u>Pwrpas yr Adroddiad:</u>		
I nodi a chofnodi gwaith CYSAG am y flwyddyn o Fedi 2007 – Gorffennaf 2008		
<u>Argymhellion:</u>		
<ul style="list-style-type: none">I gymeradwyo'r adroddiad, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau, fel cofnod cywir.I ofyn am i'r Awdurdod Addysg Lleol gyfieithu'r adroddiad i'r Gymraeg, ei brintio a'i ddosbarthu i bob ysgol a choleg yn Sir Ddinbych, a derbynwyr eraill fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac fel y'u nodir yn yr adroddiad.		

Agenda Item No. 5



CONTENTS

	Page No:
1. Executive Summary	2 - 3
2. Advice given to the LEA:	4 – 15
a) Religious Education and the Agreed Syllabus	4 – 8
b) Methods of teaching, choice of teaching materials and provision of Initial Teacher Training	8 – 10
c) Collective Worship	10 – 15
3. Other Matters:	15 – 16
a) Local matters	15
b) National matters:	15 – 16
i. Estyn	15
ii. DELLS	16
iii. WASACRE	16
iv. Complaints	16
4. Appendices:	17 – 27
a) Composition of SACRE	17 – 18
b) Number and dates of meetings	18
c) Organisations receiving the report	18
d) Focused evidence: statistics	19 - 27

Executive Summary		
Topics/Issues:	Advice given:	Implemented By LEA:
RE: Agreed Syllabus	The LEA and Agreed Syllabus Conference adopt – with some additions and clarifications - the National Exemplar Framework for RE as the new Denbighshire Agreed Syllabus; the LEA support the setting up of a Joint Working Group to produce additional guidance and support for the new Agreed Syllabus and distribute this guidance to schools	✓ ✓ ✓
RE: Standards	Following consideration of Inspection Reports, schools be sent letters congratulating good features and offering the services of the Inspector/Adviser or School Improvement Officers in addressing issues; following consideration of Supportive Review Visits, schools be sent letters congratulating their good features and offering the services of the Inspector/Adviser RE or School Improvement Officers in addressing any areas for development; ; the LEA consider a replacement model for the Supportive Review visits that have taken place over the last few years.	✓ ✓ ✓
RE: Methods of Teaching	The additional guidance and support for the new Agreed Syllabus to include guidance on teaching and learning; advice on methodology included in INSET sessions for the new Agreed Syllabus, and in visits to schools by the Inspector/Adviser RE.	✓ ✓
RE: Choice of Teaching Materials	No formal guidance, but the additional support and guidance for the new Agreed Syllabus includes reference to some teaching materials; the LEA distribute the CD arising from the GTCW Network Group and from the RE Quest website; INSET sessions on the new Agreed Syllabus included a wide range of resources for teachers to peruse and evaluate.	✓ ✓ ✓
RE: Provision of ITT	No visits possible this year; Survey of schools re ITT provision to be updated and copies sent to all relevant colleges.	✓

Collective Worship	Following consideration of Inspection Reports, letters be sent to schools congratulating them for the good features and offering the services of the Inspector/Adviser RE or School Improvement Officers to address any issues; following the Supportive Review Visit reports, letter be sent to schools congratulating them on the good features and offering the services of the Inspector/Adviser RE or School Improvement Officers to address any areas for development; the LEA distribute the Spiritual Development in the School and Curriculum to every teacher in the schools of the LEA.	✓ ✓ ✓
Other Matters: Local	Schools inform Governors of the new Agreed Syllabus and its requirements; SACRE members have reasonable contact with schools.	✓
Other Matters: National	Members receive regular updates of Estyn Inspection Reports or documents relating to RE and Collective Worship; Members be informed about developments and initiatives undertaken by DCELLS; the SACRE maintain its membership of WASACRE and that representatives attend and report back on the meetings of the association.	✓ ✓ ✓
Complaints	No complaints received.	

The Annual Report.

2. Advice given to the LEA

a) Religious Education

i. The Agreed Syllabus

Following the national consultations and joint discussions and presentations given to the joint meetings with two other local SACREs, the Denbighshire SACRE and Agreed Syllabus Conference agreed to adopt the National Exemplar Framework for Religious Education for 3 – 19 year olds as the Agreed Syllabus for Denbighshire, with some additions and clarifications.

The SACRE had requested the LEA to support a Joint Working Group with the two other local SACREs to produce additional guidance to schools on the implementation and planning for the new Agreed Syllabus. The SACRE was delighted that the LEA agreed, and were especially delighted with the very comprehensive and helpful guidance produced by the group, and printed and distributed to all schools.

SACRE's support in raising standards in RE is carried out through a monitoring programme of Supportive Review Visits by the Inspector/Adviser. During this year the cycle of visits was completed, and members received the final reports (with the exception of some outstanding reports on Roman Catholic schools which the Diocese had not been able to provide to the SACRE), including a summary of the common issues raised through the process.

It was agreed that the Inspector/Advisor would discuss the future focus for raising standards with the newly appointed Head of School Improvement.

There has been no evaluation of the effectiveness of the Agreed Syllabus in view of the changes taking place, and that there is now a new Agreed Syllabus in place, to be implemented in a phased cycle from September 2008.

In terms of evaluation the effectiveness of the support and guidance for the Agreed Syllabus, no evaluations have taken place in view of the fact that a new Agreed Syllabus and guidance document were being issued to schools.

Standards

Examination results

The SACRE received details of the examination results for 2007. Members were very disappointed that all results, except one, were once again below national levels, despite improvements in some, and equal results to the previous year in others. The results for GCSE Short Course Religious Studies were also disappointing in that they lay below national figures and had dropped from the previous year too.

Much discussion had taken place on the results and on the effect of the letters from SACRE to schools concerning their results. Members were made aware of the difficulties and dilemmas facing schools, and the process of offering examination courses for students. A number of strategies were discussed, and the Inspector/Adviser was directed to discuss the issue with the newly appointed Head of School Improvement, with a view to working with the schools in the next academic year.

Inspection Reports

The reports of RE in five schools were analysed during the year. The results in terms of standards were as follows:

Key Stage	Grade 1	Grade 2	Grade 3	Grade 4	Grade 5
KS 1	0	4	0	0	0
KS 2	0	5	0	0	0
KS 3	0	0	0	0	0
KS 4	0	0	0	0	0
Post 16	0	0	0	0	0

In analysing these reports, the good features that were identified in the reports for two or more schools were:

<i>Good Features identified in Inspection Reports:</i>	<i>No. of schools:</i>
Knowledge/ Understanding of Christianity	5
Knowledge/Understanding/Inclusion of religions other than Christianity	5
Knowledge /Understanding of religious concepts / themes	5
Standards of achievement	5
Knowledge / Understanding of the Bible/Bible stories	4
Composing of / Writing own prayers	2
Knowledge / Awareness of famous lives	2
No shortcomings	2
Quality / Variety / Sufficiency of written work	2

All other good features were for individual schools, and were as follows:

- Visits to local churches / chapels / places of worship
- Familiarity with technical terms / vocabulary
- Aware of the impact on belief
- Understanding / Awareness of the need for caring / sharing
- Opportunities / ability to express own ideas / views
- Use of ICT in RE
- Compliance with statutory requirements for RE/Agreed Syllabus

All areas of concerns raised in the reports were for individual schools:

- Knowledge / Understanding of Christianity
- Knowledge / Understanding / Inclusion of religions other than Christianity
- Ability to ask questions to develop understanding
- Awareness of questions arising from everyday experiences
- Spiritual dimension of work

As has been the long established process, schools were written to after their Inspection Report was considered by SACRE, and commended for their good features, offered assistance in any shortcomings, and advised to consider themselves in relation to the shortcomings

identified in all of the reports in that session. Schools have found this process to be valuable and helpful.

Supportive Review Visits

Members received the report on the Glan Clwyd Consortium of schools, and on a group of schools that had been omitted from previous consortium reports. The analysis of the good features, shortcomings and recommendations was discussed, and members noted that the visits had been valued by the schools, as well as informing SACRE of standards and provision in the schools. As had become a standard practice, letters were sent to all schools congratulating good features identified, and offering the services of the Inspector/Adviser or other School Improvement Officers in addressing any areas for development.

As these reports brought the whole cycle of Supportive Review Reports to an end, members considered the overall comments in terms of standards, good features identified, and the areas for development.

The table below indicates the information about standards in the Supportive Review visits (*):

<i>Standards as recorded in Supportive Review Visits: (#)</i>	<i>No of schools:</i>
Grade 1 (Good with outstanding features)	5 schools
Grade 2 (Good features and no important shortcomings)	17 schools
Grade 3 (Good features outweigh shortcomings)	8 schools
Grade 4 (Some good features, but shortcomings in important areas)	1 school
Grade 5 (Many shortcomings)	0 schools
No judgement made	12 schools

(*) Some of the Standards were based on recent Estyn Inspections; where the old Inspection Framework grades were used they have been converted into the new

(#) It was not always possible to make a judgement on standards during a visit

The table below shows the most common good features in more than sixteen schools:

<i>Most common good features in all Supportive Review visits:</i>	<i>No. of schools</i>
A good range of teaching and learning activities and approaches	20 schools
Clear and effective monitoring procedures	19 schools
Links with the local faith community	19 schools
Clear and comprehensive schemes of work	17 schools

In terms of the most common areas for development, the table below shows the areas that were common to more than seven schools:

<i>Most common areas for development in all Supportive Review visits:</i>	<i>No of schools:</i>
Assessment procedures and recording of achievement	11 schools
Opportunities for pupils to offer personal responses to the work in RE and give their own ideas	7 schools

The recommendations usually followed closely the areas for development, but the table below indicates those recommendations common to more than seven schools:

<i>Most common recommendations in all Supportive Review visits:</i>	<i>No of schools:</i>
Maintain the good practice in RE and/or collective worship	24 schools
Carry out/develop or implement the planned review to the scheme of work in view of the revised school curriculum	14 schools
Develop assessment and recording procedures for RE	7 schools

The SACRE directed the Inspector/Adviser to discuss the focus for future work with schools with the newly appointed Head of School Improvement.

b. Methods of teaching

The SACRE and the LEA had provided comprehensive documents and materials in support of the new Agreed Syllabus, which contained advice on methods of teaching and delivery of RE.

In addition, advice on teaching methods is contained in the visits to schools of the Inspector/Adviser, for planned support or for school based INSET sessions.

INSET sessions had been conducted as part of the BSF criteria on addressing the revised school curriculum. These sessions had been well attended and found useful and informative by schools.

In terms of judging the impact of the advice and support given about teaching methods, the SACRE has not undertaken any formal evaluations, but the responses from schools, have shown that the support is valued and found to be of benefit.

SACRE also has presentations made from teachers at each meeting. During the year, a presentation from a Secondary RE Department had been received. Plans to continue this procedure in the future are in place.

Choosing teaching resources

The SACRE has not formally advised schools in the matter of purchasing teaching resources, deeming this to be a matter for the schools themselves. However, through the visits of the Inspector/Adviser – for planned support, and for school based INSET sessions – advice is given. Additionally, specific requests are made to the Inspector/Adviser for advice on teaching resources.

As part of the INSET sessions concerning the new Agreed Syllabus, a full range of resources for teaching and learning had been provided for teachers to peruse as part of the day, and attention was drawn to some specific resources as being especially valuable. Together with the Comprehensive Guide for RE distributed to all schools along with the new Agreed Syllabus, schools had received a five CD pack on

Christianity, as produced by RE Quest, together with a CD entitled "RE and ICT: Some Ideas (2)" produced as a result of a GTCW Network Group.

Provision of Initial Teacher Training

It had not been possible during the year to make a visit to or receive a visit from an Initial Teacher Training Institute, but it is hoped that this process can be continued in the next academic year.

However, members did receive the updated results of the Survey into ITT conducted through the schools of the LEA, and a copy of the overall report was sent to all the colleges concerned.

c) Collective Worship

Monitoring provision

Inspection Reports

As part of the process of monitoring, Estyn Inspection Reports are analysed in terms of collective worship, spiritual, moral, social and cultural development (SMSC), and aspects of Key Question 3. These are compiled and noted by SACRE. Letters are sent to schools following the consideration of them in SACRE, commending good practice and offering support as may be necessary.

Over the year seven schools' inspection reports were analysed. Judgements on provision for SMSC were not always stated, but the pattern that emerged was as indicated in the table below.

Outstanding (Grade 1)	Good – no shortcomings (Grade 2)	Good (Grade 3)	Well / Effectively Promoted	Poor/ Un- satisfactory	No Judgement Made
2	4	1	0	0	0

The good features identified in schools were numerous, and the table below indicates those that were made on two or more schools.

<i>Good features of SMSC identified in Inspection Reports</i>	<i>No of schools</i>
Provision for SMSC Development	7
Curriculum Cymreig / The Welsh Dimension	7
Pupil progress / gaining in confidence / skills	7
Extra-curricular activities / development	6
Awareness / Promotion of sustainable development	6
Observance / promotion of values / good manners / respect	5
Charities and good causes	5
Links with / Involvement in the local community	5
Knowledge / Understanding / Awareness of other cultures or traditions	4
Moral (and social) development / provision	4
Programme for / Impact of PSE provision	4
Global citizenship / World education / International links	4
Educational visits / Visitors	4
Spiritual development	3
Aims / general ethos	3
Contribution of collective worship to SMSC development	3
